CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 25 Ionawr, 2016 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

147 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr E Ll Owen, (Benllech B).

148 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2015.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD

149 CYNGOR SIR YNYS MÔN -YMATEB I FATERION PRIFFYRDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth - gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

150 CYNGOR SIR YNYS MÔN - GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 60 (DROS DRO)

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan Gyngor Sir Ynys Môn yn hysbysu gwyro Llwybr Cyhoeddus 60 am gyfnod hyd at chwe mis oherwydd atgyweiriadau angenrheidiol yn dilyn tir lithriad.

151 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan Aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

152 CYNGOR SIR YNYS MÔN - ARCHEBION CYNGHORAU CYMUNED 2016/2017.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan Gyngor Sir Ynys Môn yn amcangyfrif 1745.30 o nifer tai Band D o fewn dalgylch y Cyngor i bwrpas Archebion 2016/2017.

153 UN LLAIS CYMRU - PWYLLGOR ARDAL YNYS MÔN.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cofnodion Pwyllgor Ardal Ynys Môn o Un Llais Cymru a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llangefni ar yr 22 Hydref 2015.

BILIAU A CHYFRIFON

154 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fôn Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£50-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Neuadd Goffa	Llogi'r Neuadd	£180-00
Goronwy Owen		
T J Electrics	Atgyweiriadau offer trydan	£90-00

155 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Rhagfyr, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

156 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd - manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu â'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2015 i ddiwedd mis Rhagfyr, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

157 STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2016/2017.

Cyflwynwyd – dogfen Strategaeth Buddsoddi drafft am 2016/2017 i'w chymeradwyo.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo'r ddogfen Strategaeth draft fel ag yr oedd.

158 AMCANGYFRIFON 2016/2017.

Cyflwynwyd – amcangyfrifon y Cyngor yn rhoi manylion o incwm a thaliadau arfaethedig yn 2016/2017.

PENDERFYNWYD - cymeradwyo'r amcangyfrifon gydag un newid i'r gwariant ar gynllun uwchraddio'r sustem Teledu Cylch Cyfyng. Roedd £25,000 wedi ei glustnodi ar wariant gyda gobaith y buasai £15,000 yn dod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Fodd bynnag yn y cyfnod rhwng paratoi'r Rhaglen a noson y Cyfarfod daeth yn amlwg na fuasai unrhyw gymorth yn deillio o'r Ymddiriedolaeth, er bod cais wedi ei anfon iddynt ar y 6 o Hydref 2015. Ar ôl trafod y mater penderfynodd yr aelodau ddefnyddio £7500 o'r cyfrif cynilo a rhoi £7500 ar y Presept i wneud y £15,000 i fyny. Hefyd gofyn i'r Clerc gysylltu â chwmnïau eraill i ymholi am nawdd tuag at y prosiect, i gynnwys, Magnox, Horizon a McCarthy & Stone.

159 CYNGOR SIR YNYS MÔN - ARCHEB 2016/2017.

Cyflwynwyd – adroddiad y Clerc ar anghenion cyllidol y Cyngor yn 2016/2017.

PENDERFYNWYD -

(1) codi archebiant o £49,737.

(2) mai £98,796 fydd cyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2016/2017 Dan Adran 50 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

(Bydd copi o'r Amcangyfrifon a'r Archeb wedi eu newid i adlewyrchu'r newidiadau, yn gynwysedig yn Rhaglen mis Chwefror.)

160 RHESTR GRANTIAU A RHODDION 2016/2017.

Cyflwynwyd - Atodlen yn dangos dyraniad arfaethedig arian grantiau am y flwyddyn 2016/2017.

PENDERFYNWYD - eglurodd y Clerc fod patrwm yn dangos ers rhai blynyddoedd parthed ceisiadau am grantiau gan y Cyngor. Yn y flwyddyn flaenorol prin hanner yr elusennau a sefydliadau a restrir gwnaeth gais am gymorth ariannol. Trafododd yr aelodau'r sefyllfa a phenderfynwyd ystyried edrych yn fwy manwl ar y sefyllfa yng nghyfarfod Chwefror gyda golwg i dynnu rhai enwau o'r rhestr ac efallai cynyddu symiau i rai, a dilyn patrwm o wneud rhoddion ar raddfa fwy lleol.

161 SEDD WAG WARD BENLLECH B

Trafodwyd cais Mr Dafydd Hughes am sedd wag Ward Benllech B.

PENDERFYNWYD – derbyn Mr Hughes yn unfrydol.

162 CORFF LLYWODRAETHU YSGOL LLANBEDRGOCH.

Derbyniwyd llythyr gan Glerc Gorff Llywodraethu Ysgol Llanbedrgoch yn datgan eu bod wedi dilyn yn unol â'r polisi perthnasol i ddiswyddo Mr Elwyn Lloyd Owen oherwydd nad oedd wedi mynychu cyfarfodydd nac wedi anfon ei ymddiheuriadau.

Hefyd cais i'r Cyngor Cymuned drafod dewis Cynghorydd fel olynydd i Mr Owen ar y Corff Llywodraethu.

PENDERFYNWYD – gohirio dewis aelod o'r Cyngor Cymuned i eistedd ar y Corff Llywodraethu ar hyn o bryd ac ystyried eto yng nghyfarfod Chwefror o'r Cyngor.

163 PROSIECT AMGYLCHEDDOL BENLLECH.

Derbyniwyd ateb gan gwmni yswiriant Zurich ynglŷn â sefyllfa gosod arddangosfeydd a basgedi blodau yn y pentref. Cadarnhaodd y cwmni na fuasai'r Cyngor yn gyfrifol peta'e damwain yn digwydd ac aelod o'r cyhoedd yn cael niwed cyn belled a bod asesiad risg perthnasol wedi ei gwblhau.

Yn anffodus nid oedd mwy o fanylion wedi dod i law parthed prisiau basgedi blodau. Disgwylir y wybodaeth yma erbyn cyfarfod Chwefror.

164 CYNGOR SIR YNYS MÔN - YMGYNGHORIAD AR FFORDD NEWYDD O OSOD TAI CYMDEITHASOL AR YNYS MÔN.

Trafodwyd y ddogfen yn gyffredinol ond gohiriwyd cwblhau'r ddogfen ymgynghori hyd gyfarfod Chwefror. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar y 6 o Fawrth 2016.

165 BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) (DRAFFT).

Gwnaed y sylwadau canlynol ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (Drafft) ;

Bydd hyfforddiant i aelodau Cynghorau Cymuned yn orchmynnol ac fe estynnir cyfnod swyddogaeth aelod gydag etholiadau yn newid. Cynigir dau opsiwn cyn belled ag y mae Ynys Môn yn y cwestiwn, sef uno a Gwynedd neu uno a Chonwy a Gwynedd. Gofynnwyd i'r Clerc ymateb gan bwysleisio fod Ynys Môn yn aros yn annibynnol.

166 MYNWENT NEWYDD LLANBEDRGOCH.

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw ddatblygiad pellach gyda'r tir sydd wedi ei glustnodi ar gyfer Fynwent Newydd Llanbedrgoch. Mae'n ymddangos fod y safle yn hanesyddol werthfawr gyda CADW yn dangos diddordeb yno.

CYNLLUNIO

167 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatáu

30C402C	Eugrad, Brynteg
30C145A	6 Precinct, Benllech

2. Gwrthodwyd

30C786	The Cottage, Benllech – Teimlir fod y cais yn or-ddatblygu mewn safle lle mae parcio a mynediad yn anodd yn barod o ystyried y problemau parcio anghyfreithlon ar Lon Llangefni.

168 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-15 yr hwyr.